# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-11-09 Papur 4: 7 Gorffennaf 2009

### Yr wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhestru'r wybodaeth ddiweddaraf a dderbyniwyd am ddeisebau a ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor. Derbyniwyd llawer o'r wybodaeth fel gohebiaeth. Lle mae hynny'n berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn yn PET(3) 11-09 Papur 4A.

### (i) P-03-081 Rheoliadau Benthyciadau Myfyrwyr

### Geiriad y ddeiseb

Ar hyn o bryd, mae'r Rheoliadau Cymorth i Fyfyrwyr yn gwahardd myfyrwyr hyn sydd â gradd eisoes, rhag gwneud cais am fenthyciad myfyrwyr ar gyfer costau byw. Fodd bynnag, mae myfyrwyr sy'n astudio am radd sydd, yn y pen draw, yn arwain at gymhwyster fel meddyg, deintydd, milfeddyg, pensaer, pensaer tirwedd, dylunydd tirwedd, rheolwr tirwedd, cynllunydd tref neu gynllunydd gwlad a thref, wedi'u heithrio o'r rheol hon.

Does dim modd i unrhyw fyfyriwr hyn gael benthyciad myfyrwyr i dalu ffioedd.

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ychwanegu at y galwedigaethau sydd wedi'u heithrio, a restrir uchod, er mwyn cynnwys unrhyw gwrs gradd i israddedigion sy'n rhagofyniad cyfreithiol, gorfodol i gymhwyso neu gofrestru mewn galwedigaeth benodol.

Dyma rai enghreifftiau o gyrsiau o'r fath:

BSc/Op i gofrestru fel Optometrydd

MPharmacy i gofrestru fel Fferyllydd

Rydym yn annog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gryf i weithredu'r newidiadau hyn fel mater o flaenoriaeth, gan sicrhau bod y newidiadau'n ôl-weithredol os yw hynny'n bosibl.

Y cymhelliant y tu ôl i'r ddeiseb hon yw sicrhau nad yw myfyrwyr hyn, yn enwedig y rheini o gefndiroedd llai cefnog, yn cael eu cau allan o alwedigaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rheoliadau presennol; galwedigaethau nad oes unrhyw ffordd arall o gofrestru â nhw.

Yn ogystal â hyn, gofynnwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru roi ystyriaeth ddyledus i'r posibilrwydd o gynnig benthyciadau myfyrwyr i dalu rhan o'r ffioedd ar gyfer cymwysterau o'r fath.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-081.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Mr Deri Burgess

**Nifer y llofnodion:** 16

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 06 Rhagfyr 2007, 10 Ebrill 2008, 22 Mai 2008, 02 Hydref 2008, 27 Ionawr 2009, 31 Mawrth 2009 a 5 Mai 2009

**Yr wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3) 11-09 Papur 4A.

### (ii) P-03-099 Llwybr Ceffylau yn Nhalybont-ar-Wysg

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddarparu llwybr ar gyfer holl ddefnyddwyr heblaw modurwyr ochr yn ochr â'r A40 rhwng y gilfan bicnic yn y Bwlch a'r gyffordd newydd yn Nhalybont-ar-Wysg, gan greu cyswllt diogel rhwng y Mynydd Du a rhwydwaith Hawliau Tramwy Bannau Brycheiniog.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-99.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Lucienne Bennett

**Nifer y llofnodion:** 18

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 21 Chwefror 2008, 8 Mai 2008, 31 Mawrth 2009 a 19 Mai 2009

**Yr wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3) 11-09 Papur 4A.

**(iii) P-03-137 Hypothyroidedd yng Nghymru**

**Geiriad y ddeiseb**

'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r diffyg diagnosis o hypothyroidedd a'r gamreolaeth ohono yng Nghymru gyda golwg ar gynhyrchu argymhellion i gywiro'r sefyllfa hon.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-137.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Dr Sarah Myhill

**Nifer y llofnodion:** 1433

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 16 Hydref 2008, 20 Tachwedd 2008, 10 Chwefror 2009 a 5 Mai 2009

**Yr wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gan Goleg Brenhinol y Ffisigwyr, ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3)-11-09 Papur 4A.

### (iv) P-03-144 Cŵn Tywys y Deillion

**Geiriad y ddeiseb**

'Yr ydym ni, y cynrychiolwyr a lofnodir isod, yn deisebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i osod cyfrifoldeb penodol ar awdurdodau lleol i fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd, a chydymffurfio â hwy drwy beidio â chreu canol trefi, strydoedd mawr na strydoedd preswyl gydag arwynebau a rennir sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl ddall a phobl sy'n gweld yn rhannol a phobl anabl eraill, gan eu hallgáu i bob pwrpas o amgylchedd y stryd.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-144.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Cŵn Tywys y Deillion

**Nifer y llofnodion:** 10

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 25 Mehefin 2008, 2 Hydref 2008, 4 Rhagfyr 2008, 27 Ionawr 2009, 31 Mawrth 2009, 19 Mai 2009 a 9 Mehefin 2009

**Yr wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebydd, ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3) 11-09 Papur 4A.

### (v) P-03-153 Celf Corff

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cyfyngiadau ar yr oed y gall plentyn dan oed gael celf corff. Dylid cyfyngu'r oed ar gyfer celf corff, ar wahân i'r clustiau a'r trwyn i 16 oed'.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-153.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** y Cynghorydd Russell Downe

**Nifer y llofnodion:** 14

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 10 Chwefror 2009, 31 Mawrth 2009 a 19 Mai 2009

**Yr wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3) 11-09 Papur 4A.

### (vi) P-03-170 MENCAP Cymru

**Geiriad y ddeiseb**

Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Comisiwn y Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru i arwain gyda golwg ar gyflogi mwy o bobl ag anableddau dysgu , ac i annog cyflogwyr eraill yn y sector cyhoeddus, megis y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol, i gyflogi mwy o bobl ag anableddau dysgu. Dim ond 1 o bob 10 o bobl ag anableddau dysgu y mae arnynt eisiau gweithio sydd mewn unrhyw fath o gyflogaeth lle rhoddir tâl. Mae hyn yn annheg.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-170.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** MENCAP Cymru

**Nifer y llofnodion:** 134

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 13 Ionawr 2009, 10 Chwefror 2009 a 19 Mai 2009

**Yr wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3) 11-09 Papur 4A.

### (vii) P-03-181 Anemia Dinistriol

### Geiriad y ddeiseb

**Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gydnabod nad yw'r diagnosis a'r driniaeth o Anemia Dinistriol yn ystyried anghenion unigol cleifion ac mae hyn yn aml yn cael effaith niweidiol ar brofiad y claf o reoli'r cyflwr. Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn gorchymyn bod diagnosio, monitro a thrin Anemia Dinistriol yn canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn er mwyn diogelu urddas a hawliau dioddefwyr y clefyd.**

**Linc i'r ddeiseb: h**

**ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-181.htm**

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Cymdeithas Anemia Dinistriol

**Nifer y llofnodion:** 20

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 19 Mai 2009

**Yr wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3) 11-09 Papur 4A.

### (viii) P-03-183 Coleg Ceredigion

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni, myfyrwyr Coleg Ceredigion yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella'r gwasanaeth rheilffyrdd yn Aberystwyth.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-183.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Disgyblion Coleg Ceredigion

**Nifer y llofnodion:** 10

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 20 Tachwedd 2008 a 13 Ionawr 2009

**Yr wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ar fideo gan y deisebwyr, a gellir ei wylio ar:

### (ix) P-03-187 Diddymu'r Tollau ar ddwy Bont Hafren

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth y DU yn San Steffan i wneud popeth o fewn ei allu i ddiddymu'r tollau ar ddwy bont Hafren.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-187.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** John Warman

**Nifer y llofnodion:** 22

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 2 Mawrth 2009 a 5 Mai 2009

**Yr wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3) 11-09 Papur 4A.

### (x) P-03-197 Achub y Vulcan

### Geiriad y ddeiseb

'Mae Gwesty'r Vulcan yn Stryd Adam, a adeiladwyd yn 1853, yn un o dafarndai hynaf Caerdydd. Trefnwyd iddo gael ei ddymchwel ym mis Mehefin 2009 i wneud lle i faes parcio aml-lawr a fflatiau. Helpwch ni i wneud i'r datblygwyr gynnwys y Vulcan yn eu dyluniadau a rhoi stop ar y fandaliaeth ddianghenraid hon o ddiwylliant a hanes Caerdydd.

Mae sôn am symud y dafarn i Amgueddfa Sain Ffagan ond ni ddylai'r Vulcan fod mewn amgueddfa; dylai fod lle y bu am 155 blynedd - yng nghanol Caerdydd.

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn credu bod mwy o werth i Gaerdydd o gael Gwesty'r Vulcan yn sefyll nag o'i gael wedi'i ddymchwel, ac mae mwy o werth iddo o'i gael yn sefyll lle y mae nag o'i gael mewn amgueddfa. Rydym yn annog y datblygwyr i barchu diwylliant a hanes Caerdydd a diogelu'r adeilad hanesyddol hwn ar ei safle presennol.

Rydym hefyd yn annog Cyngor Caerdydd a Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddefnyddio'u holl bŵer i sicrhau bod y Vulcan yn aros lle y mae - yng nghalon Caerdydd.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-197.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Rachel Thomas

**Nifer y llofnodion:** 5,000

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 02 Mawrth 2009, 17 Mawrth 2009, 5 Mai 2009, 19 Mai 2009 a 9 Mehefin 2009

**Yr wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Dreftadaeth ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3) 11-09 Papur 4A.

### (xi) P-03-207 Cymorth i'r di-waith ym Mynwy

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymchwilio i sut i ddarparu cymorth a gwybodaeth effeithiol i bobl yng Nghymru sy'n chwilio am waith, hyfforddiant neu sy'n ceisio cychwyn menter fusnes yn lleol.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-207.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Pwyllgor Materion Cymunedol Cyngor Tref Trefynwy

**Nifer y llofnodion:** 286

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 31 Mawrth 2009, 19 Mai 2009 a 23 Mehefin 2009

**Yr wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebydd, ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3) 11-09 Papur 4A.

**(xii) P-03-220 Gostyngwch y terfyn cyflymder ar yr A40 ger y Fenni**

**Geiriad y ddeiseb**

Deiseb at Gynulliad Cenedlaethol Cymru:

Er mwyn i gerddwyr allu cerdded yn ddiogel, teimlwn ei bod yn hanfodol bod y terfyn cyflymder o 40 mya ar yr A40 rhwng cylchfan Hardwick a Ffordd Plas Derwen yn cael ei ostwng i o leiaf 30mya.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-220.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** y Cynghorydd Maureen Powell

**Nifer y llofnodion:** 220

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 19 Mai 2009

**Yr wybodaeth ddiweddaraf:** Derbyniwyd yr wybodaeth ddiweddaraf gan Ddirprwy Brif Weinidog Cymru, ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3) 11-09 Papur 4A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Gorffennaf 2009**